

No.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, S.J. Haines, H.C. Hamilton, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards ac N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

367 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

368 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.M. Hanks.

369 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2023 fel cofnod cywir.

370 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd Carroll ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Strategaeth Ariannol 2024/25. Natur ei ddiddordeb oedd ei fod yn gwasanaethu ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llandochoau, lle codwyd y setliad ariannol. Gan fod hyn yn cynrychioli buddiant personol yn hytrach na buddiant sy'n rhagfarnu, o dan 19.3.3 (b) o Gyfansoddiad y Cyngor, siaradodd y Cynghorydd Carroll ar yr eitem, ac arhosodd yn y cyfarfod drwy gydol yr eitem.

371 STRATEGAETH ARIANNOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad oddi wrth y Cabinet ar 20 Gorffennaf, 2023 gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg. Diben yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor adolygu ac ystyried y Strategaeth Ariannol a'r rhagdybiaethau a wnaed ar y costau a'r cyllid yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) wedi'i adnewyddu. Roedd yr adroddiad hwn yn gam ymlaen o'r CATC a gymeradwywyd gan y cyngor ym mis Mawrth, a rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi trosolwg o'r adroddiad a'r materion allweddol, gan gynnwys:

- Y strategaeth, y rhagolwg economaidd, y sefyllfa bum mlynedd gyfredol a'r ymagwedd weithredu mewn perthynas â'r Strategaeth Ariannol, gyda'r ffocws ar gefnogi'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ynghyd â'r angen i gael cyllid cynaliadwy er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau perthnasol mewn cyllid. O ran helpu i gyflawni hyn, byddai angen i'r cyngor edrych ar fesurau amrywiol megis sicrhau bod y lefelau priodol o gronfeydd wrth gefn, edrych ar sut i gynhyrchu refeniw treth, ffioedd a thaliadau lleol, ochr yn ochr â mabwysiadu ymagwedd gyfunol o ran cyfrifoldeb cyllid rheoli corfforaethol. Yn ogystal, byddai'r pwyslais ar sicrhau bod gan y cyngor gyllid hygyrch a thryloyw yn ogystal â'r angen i ddarparu'r gwerth gorau.
- Parhaodd y rhagolwg economaidd presennol i ddarparu heriau i'r cyngor yn ogystal ag ar raddfa genedlaethol.
- Roedd y sefyllfa gyllido bum mlynedd bresennol yn parhau i fod yn ddangosol yn unig, gyda dim byd pendant eto gan Lywodraeth Cymru (LIC) o ran cyllid.
- Roedd heriau eraill yn cynnwys pwysau demograffig sylweddol gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio yn ogystal ag effaith Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a phwysau ar ofal cymdeithasol.
- Roedd hi'n bosib y byddai'r bwlch cyllid o £6.4m yn cynyddu ac felly roedd hi'n bwysig edrych ar ffyrdd o gau'r bwlch hwn gan gynnwys ailedrych ar y fframwaith arbedion a gohirio themâu trawsnewid posib.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- Cododd y Cynghorydd Franks nifer o ymholiadau, gan gynnwys cryfder a hyfywedd y rhagamcanion pum mlynedd presennol, ffioedd a thaliadau, y defnydd o gronfeydd wrth gefn / 'llyfnhau' cronfeydd wrth gefn, pwysau costau ac arbedion. Esboniwyd mai'r egwyddor allweddol mewn perthynas â ffioedd a thaliadau oedd sicrhau bod y gost yn cael ei hadennill o'r mathau hynny o wasanaethau dewisol a sicrhau bod y costau hynny'n ddigon cadarn. Fodd bynnag, fel rhan o hyn, roedd hefyd yn bwysig cynnal yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb angenrheidiol, i ystyried goblygiadau ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol unrhyw gynnydd o'r fath mewn ffioedd a thaliadau a chydbwysu cynnydd o'r fath â'r pwysau a wynebier gan wasanaethau statudol allweddol fel Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Yn ogystal, gosodwyd rhai taliadau a ffioedd ar lefel genedlaethol, megis cynllunio a draenio, ac nid ar lefel 'ddewisol' gan y cyngor. Ar hyn o bryd roedd swyddogion wrthi'n tynnu ynghyd rai rhagamcanion ynghylch

y cynnydd mewn ffioedd a thaliadau a fyddai'n cael eu darparu mewn adroddiad i'r Pwyllgor yn y dyfodol. O ran defnyddio llyfnhau cronfeydd wrth gefn, roedd yn bwysig i'r cyngor ystyried y ffordd y defnyddiwyd y cronfeydd wrth gefn hyn er mwyn cynllunio sut i fynd i'r afael â phwysau o'r fath yn yr hirdymor. O ran rhai o'r meysydd lle byddai'r defnydd o lyfnhau cronfeydd wrth gefn yn cael ei ddefnyddio, megis o ran ynni a digartrefedd, roedd hyn er mwyn llyfnhau'r 'cynnydd' yn y costau ac yn y ddau achos, y gobaith oedd y byddai mesurau amrywiol fel lleihau costau ynni a defnyddio'r Strategaeth Ailgartrefu Cyflym, dros amser, yn lleihau'r pwysau costau hynny. Felly, teimlwyd ei bod yn gynaliadwy defnyddio cronfeydd wrth gefn i gwrdd â phwysau costau o'r fath yn y tymor byr i'r tymor canolig gyda'r cyngor yn cael strategaeth i fynd i'r afael â'r pwysau hynny yn y tymor hwy. Ffactorau allweddol eraill fyddai gwerth y cronfeydd wrth gefn, pwysau costau seiliedig ar alw a thrafodaethau cyflog yn ogystal â meysydd fel costau ynni, ac ati. O ran arbedion, roedd rhai wedi'u cyflawni yn ystod 2023/24; fodd bynnag, roedd rhywfaint o lithriad wedi digwydd ac nid oedd arbedion wedi'u cymhwyso'n llawn i'r meysydd hynny lle ystyriwyd nad oedd modd cyflawni arbedion o'r fath ar hyn o bryd oherwydd y canlyniadau anfwriadol posib a achoswyd mewn meysydd eraill gan y rhain. O ran yr arbedion a oedd eisoes wedi'u cynnwys ar gyfer 2024/25, byddai'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gyllidebu gyda sefyllfa arbedion 2023/24 er mwyn sicrhau bod y cyngor ar y trywydd iawn a bod modd cyflawni arbedion o'r fath o hyd. Byddai hyn yn ymwneud â nodi unrhyw feysydd posib ar gyfer trawsnewid ac unrhyw arbedion ychwanegol posib eraill y gallai'r cyngor eu gwneud. Byddai hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor maes o law ar ôl i'r Cabinet ystyried hyn.

- Gofynnodd y Cynghorydd Carroll am lobïo posib gan y Cabinet o Lywodraeth Cymru ynghylch setliad ariannol y cyngor, yn ogystal ag adolygu'r fformiwlâu asesu a'r Asesiad Wedi'i Seilio ar Ddangosyddion, a oedd wedi'u gosod yn y 1990au. Eglurodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg a'r Arweinydd fod y swyddogion perthnasol wedi cysylltu â'u swyddogion cyfatebol mewn awdurdodau lleol eraill a'r rhwydweithiau perthnasol yn ogystal â thrwy gyfarfodydd a thrafodaethau gydag Arweinwyr y Cyngor ar y cyd â LIC. Dangoswyd hyn gan y berthynas waith agos rhwng Gweinidogion LIC, Arweinwyr y Cyngor a'r swyddogion perthnasol mewn perthynas â chyllid Addysg, gyda gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar feysydd penodol o'r fformiwla ariannu fel rhan o adolygiad.
- Cododd y Cynghorydd Haines ymholiad tebyg ynghylch lobïo LIC a'r defnydd o'r un geiriad ar gyfer yr argymhellion ar gyfer yr adroddiad hwn o'i gymharu â'i ailadrodd diwethaf, yn ogystal â chwyddiant yn cael y bai am lawer o broblemau, ond mewn gwirionedd roedd hyn wedi dechrau gostwng ac roedd y cyngor yn gweithio dan y dybiaeth o chwyddiant o 10% fel rhan o'i ystyriaethau cyllidebol. Eglurwyd y byddai chwyddiant is yn helpu o ran setliad y gyllideb ac roedd y cyngor wedi caniatáu cynnydd tybiedig mewn meysydd fel ffioedd darparwyr ac ar gyfer rhai contractau TGCh. Fodd bynnag, nid oedd y cyngor yn caniatáu chwyddiant prisiau cyffredinol ar draws holl benawdau cyllideb y cyngor ac nid oedd wedi gwneud hynny ers nifer o flynyddoedd. Fel rhan o hyn roedd disgwyl y byddai Cyfarwyddwyr yn gwneud rhywfaint o arbedion effeithlonrwydd a byddai rhywfaint o

No.

ostyngiad mewn chwyddiant a'r hyn oedd yn cael ei weld ar hyn o bryd oedd oedi mewn pwysau seiliedig ar alw, er nad oedd y berthynas rhwng chwyddiant a rhai o'r pwysau hyn mor linellol ag yr oedd yn ymddangos. oedd rhagamcanion ar gostau ynni, er enghraifft, yn dal i fod yn y broses o gael eu gwneud yn ogystal â phwysau eraill fel contractau TGCh. O ran tebygrwydd argymhellion i adroddiadau blaenorol, byddai'r rhain yn cael eu hystyried a'u diwygio yn y dyfodol.

- O ran ymholiad y Cynghorydd Wood ar y gostyngiad a ragwelir yn y bwch cyllid cyffredinol o'r pwynt uchel presennol o £6.4m i £0.5m ymhen pum mlynedd, ac a oedd yr amcangyfrif hwn yn gynaliadwy oherwydd chwyddiant a phwysau eraill, eglurwyd nad oedd y cyngor yn caniatáu chwyddiant prisiau cyffredinol ond yn hytrach y symiau bach hynny a gronwyd trwy chwyddiant cytundebol mewn meysydd fel y contractau hamdden a rhai o'r contractau TGCh yr ymgwymerwyd â hwy. Hefyd, ffactor arall fyddai pwysau mewn meysydd fel darparu'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn Gofal Cymdeithasol ac ystyried beth fyddai'n digwydd gyda hyn dros y cyfnod o bum mlynedd. Byddai'r union ffigur, a rhagdybiwyd ar hyn o bryd ei fod yn 3%, yn cael ei gadarnhau gyda'r aelodau ar ôl y cyfarfod. O ran ymholiad dilynol y cynghorydd ynghylch pwysau costau yn y dyfodol, roedd disgwyl y bydd diffyg bach. Wrth fynd i'r afael â phwysau o'r fath sy'n dod i'r amlwg, byddai'n llawer cliriach asesu'r rhain ar gyfer y flwyddyn nesaf yn hytrach na'r pedair blynedd nesaf ac roedd angen i'r cyngor wella ei waith o gynllunio cyllid yn y tymor canolig yn ogystal â'i fod yn cael ei dderbyn y gallai fod cynnydd mawr mewn pwysau costau yn y blynyddoedd canlynol. Roedd yn bwysig dod o hyd i gydbwysedd rhwng rhagamcanion tymor byr a hirdymor er mwyn osgoi'r mathau o bwysau costau annilys sydd wedi'u cynnwys a allai gamliwio'r rhagamcanion a gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth nag yr oedd.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at baragraff 2.63 o'r adroddiad a fyddai'n helpu i roi gwybod i'r aelodau am y pwysau allweddol drwy gydol cyfnod y Cynllun Ariannol a gofynnodd am faint o'r pwysau chwyddiant a ragwelir ar gyfer 2024/25 oedd yn deillio o ddyfarniad(au) cyflog staff. Eglurwyd bod hyn oddeutu £3.5m ac roedd y swm hwn wrthi'n cael ei ailystyried ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys rhagdybiaethau ynghylch cyflogau athrawon y byddai angen ailedrych arnynt nawr oherwydd trafodaethau parhaus, ac ati.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad atodol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad ar Strategaeth Ariannol 2024/25.

372 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2024/25 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2024/25 I 2028/29 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad oddi wrth y Cabinet ar 20 Gorffennaf, 2023 gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg, a'i ddiben oedd i'r Pwyllgor ystyried Strategaeth Gyfalaf

Ddrafft 2024/25 i 2028/29 a'r Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol ar gyfer 2024/25 i 2028/29. Roedd hyn yn dilyn yr adroddiad a ddarparwyd ym mis Mawrth 2023 i'r Cyngor Llawn ac roedd wedi'i ddiweddarau i gynnwys llithriad ar y Rhaglen Gyfalaf fel rhan o'r sefyllfa alldro a chynnwys y cynllun Strategaeth Fuddsoddi Di-drysorlys fel cynllun ar y gweill (a olygai ei fod wedi'i gynnwys at ddibenion cynllunio, ond a oedd yn dal i fod yn destun achos busnes, er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon hynny'n cael eu cynnwys yn y gyllideb referniw).

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn rhoi trosolwg o'r strategaeth a'r cynigion, gan gynnwys y penawdau allweddol, y farn hirdymor, natur y strategaeth a buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y rhaglen gyfalaf bum mlynedd helaeth, gan gynnwys y Cynlluniau Dysgu Cynaliadwy a'r Rhaglen Gwella Tai, yn ogystal â'r camau nesaf ar gyfer y strategaeth, gan gynnwys y broses cynigion cyfalaf o fis Hydref 2023.

O ran ariannu'r Rhaglen Gyfalaf, defnyddiodd y cyngor gyfalaf cyffredinol a chyllid a dderbyniwyd gan LIC, yn ogystal â ffynonellau cyllid eraill megis grantiau Adran 106 a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn gyda benthyca â chymorth y byddai angen eu hadlewyrchu yn rhagamcanion referniw'r cyngor.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- Cyfeiriodd y Cyngorydd Franks at y symiau cymharol fach sy'n ymwneud â cheisiadau cyfalaf ar gyfer meysydd fel arwynebu a chynnal a chadw priffyrdd, o'i gymharu â'r galw gwirioneddol am y rhain. Esboniwyd bod rhaid cael cydbwysedd rhwng y gofynion am fuddsoddiad cyfalaf yn y meysydd hyn a'r pwysau sy'n cael eu profi ar hyn o bryd gan gyllideb referniw'r cyngor. Ychwanegodd yr Arweinydd hefyd, o ran mynd i'r afael â thyllau yn y ffordd, bod rhywfaint o arian ychwanegol wedi ei ddarparu, ond bod angen i'r cyngor gydbwyso hyn â gwasanaethau statudol eraill a ddarparwyd ganddo ac i flaenoriaethu anghenion trigolion sy'n agored i niwed.
- Cyfeiriodd y Cyngorydd Goodjohn at nifer o gynlluniau cyfalaf llwyddiannus, h.y. rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), tai cymdeithasol a chartrefi carbon isel, yn ogystal â'r gwaith o ran sero-net.
- Cododd y Cyngorydd Haines bryderon ynghylch cynllun Strategaeth Fuddsoddi Di-Drysorlys a cheisiodd eglurhad ar y gyllideb gyfalaf ac os oedd hyn yn cynnwys unrhyw gyllid ar gyfer gwaith posib oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (CAAC). Roedd adolygiad yn cael ei gynnal i bennu maint y broblem hon o fewn isadeiledd Cyngor Bro Morgannwg ac unrhyw effaith ar geisiadau cyfalaf, a dyna pam nad oedd wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf hyd yma. O ran buddsoddiad di-drysorlys, byddai cymorth a chyngor allanol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo'r cyngor mewn buddsoddiadau masnachol ac roedd y cyngor yn parhau i fod yn 'amharod i gymryd risgiau' o ran strategaeth fuddsoddi.
- O ran pwynt y Cyngorydd Carroll ynghylch yr angen i gymryd ymagwedd tymor hwy a phragmataidd at y gwaith o arwynebu ffyrdd a manteision cost posib arwynebu cyfanwerthol yn hytrach nag atgyweiriadau tameidiog,

No.

eglurwyd bod yn rhaid i'r cyngor ystyried nifer o ffactorau cydbwysu rhwng costau cyfalaf a reffeniw, yn ogystal â goblygiadau yswiriant a chyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Roedd adborth yn cael ei ddarparu ar y meysydd hyn gan y Gwasanaethau Cymdogaeth a byddai'n cael ei gynnwys yn y broses ceisiadau cyfalaf.

- Dymunodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards ddiolch i'r tîm Cyllid am eu gwaith rhagweithiol fel rhan o'r strategaeth a phwysleisiodd fod yr heriau a wynebwyd gan y cyngor yn y maes hwn yn bodoli mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a thu hwnt, yn ogystal â'r blaenoriaethau a'r penderfyniadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud ar bwysau cost, ac ati. Eglurwyd mai dyma fan cychwyn y drafodaeth tuag at gwblhau'r Gyllideb a'r Strategaeth ac fel rhan o asesiad ehangach ar bwysau costau yn ymwneud â swyddogion y cyngor, rhwydweithiau proffesiynol allanol ac eraill, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor dderbyn sesiwn briffio ynghylch y codau ymarfer diwygiedig diweddaraf a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg a pha effaith a gafodd hyn ar adrodd.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

- (1) NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad atodol.
- (2) BOD y Pwyllgor yn cael sesiwn friffio ynghylch y Codau Ymarfer diwygiedig diweddaraf a gyhoeddwyd gan CIPFA a pha effaith a gafodd hyn ar adrodd.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet.
- (2) Sicrhau bod gan y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y codau ymarfer diwygiedig a'r effaith ar adrodd.

373 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/2023 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad oddi wrth y Cabinet ar 7 Medi 2023, gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr Hunanasesiad Blynyddol yn rhan o ofynion deddfwriaethol a fframwaith rheoli perfformiad y cyngor, a oedd yn cynnwys hunanasesiad o'i waith yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, a oedd yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol cyffredinol ar gyfer 2020 i 2025. Atodwyd adroddiad Hunanasesiad Blynyddol drafft Bro Morgannwg 2022/23 yn Atodiad A, gyda fersiwn "hawdd ei ddarllen" yn Atodiad B.

Diben yr hunanasesiad oedd edrych yn ôl ar sut roedd y cyngor wedi perfformio ond hefyd, yn bwysig, defnyddio hynny fel sail ar gyfer sut y byddai'r cyngor yn datblygu ac yn gwella yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad ei hun yn ddatganiad

sefyllfa ar berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cyflawni blaenoriaethau'r cyngor a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol a sut roedd hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol pum mlynedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn mynd i'r afael â'r tair her hanfodol a nodwyd gan y cyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol (argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd (Prosiect Sero) a sicrhau gwydnwch sefydliadol). Llywiwyd y broses hunanasesu trwy Hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau unigol, ystod o ddata perfformiad, ymgysylltu a data arall, her cymheiriaid, sesiynau gydag Aelodau Etholedig ac ymgynghoriad, arolygon ac adborth allanol.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- Aethpwyd i'r afael ag ymholiad y Cynghorydd Carroll ar faterion diweddar yn ymwneud â darparu gwasanaethau (gan gynnwys materion a godwyd gan drigolion), a'u heffaith ar berfformiad, drwy ddweud bod y cyngor yn gwerthfawrogi'r mewnbwn a'r adborth gan drigolion y Fro, er mwyn gallu clywed eu llais a'i ystyried fel rhan o'r broses hunanasesu, gan gynnwys yr arolwg Gadewch i ni Siarad am Fyw yn y Fro. Aseswyd sgôr hunanasesiad y cyngor drwy farnu ei berfformiad yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (a oedd wedi gweld 85% o'r ymrwymadau hynny a'r targedau cysylltiedig yn cael eu cyflawni) fel y cytunwyd gan y Cabinet, gyda mewnbwn gan y Pwyllgorau Craffu fel rhan o ddatblygu'r cynllun hwnnw a chynlluniau gwasanaeth dilynol.
- Cododd y Cynghorydd Haines bryderon tebyg nad oedd y broses hunanasesu ac adrodd ddilynol yn adlewyrchu'n llawn farn a phrofiadau trigolion y Fro. Fodd bynnag, nodwyd yr adroddiad ei hun mewn fformat clir a hawdd ei ddarllen.
- Pwysleisiodd yr Is-gadeirydd yr angen i'r broses hunanasesu ac adrodd gynnwys rhesymeg glir dros benderfyniadau'r cyngor o ran darparu gwasanaethau a'r hyn a oedd wedi mynd yn dda a'r hyn nad oedd cystal.
- Ychwanegodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards y dylai'r broses adlewyrchu arfarniad agored a gonest o ble roedd y cyngor, (a wnaeth eisoes i raddau helaeth) a'r gwaith yr oedd y cyngor yn ei wneud, gyda'i gynnydd a'i berfformiad yn 'waith ar y gweill' wrth iddo wynebu heriau amrywiol gan gynnwys yr argyfwng costau byw. Roedd yn bwysig bod Aelodau Etholedig yn cymryd rhan lawn yn y broses hon ac yn mynegi sylwadau'r trigolion gan gynnwys y sylwadau da, y drwg a'r difater. Eglurwyd y byddai'r fersiwn derfynol o'r adroddiad hwn yn cynnwys rhagor o adborth gan drigolion (gan gynnwys gwaith arolwg) ac y byddai'n edrych ar y fframweithiau ffurfiol ac anffurfiol o ran rhyngweithiadau trigolion (gan gynnwys cwynion) â gwasanaethau'r cyngor. Roedd yn bwysig bod trigolion ac Aelodau Etholedig yn bwydo yn ôl i'r broses hon h.y. drwy arolwg Gadewch i ni Siarad am Fyw yn y Fro a rhwydwaith Hyrwyddwyr Cyngor Bro Morgannwg.
- Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd cael eglurder ynghylch cwmpas y broses hunanasesu ac adrodd h.y. ei gwneud yn glir ei fod yn adrodd ar y meysydd a'r gwasanaethau hynny y dywedodd y cyngor y byddai'n ei wneud a'i fod wedi'i wneud, a fyddai'n helpu i atgyfnerthu hygyrchedd a darllenadwyedd yr adroddiad.

No.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD sylwadau canlynol y Pwyllgor Archwilio Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn cael eu trosglwyddo i'r Cabinet:

- Bod pwyslais pellach yn cael ei roi i fyfyrddodau a barn trigolion ar wasanaethau'r Cyngor o fewn yr adroddiad. Dylai hyn roi adlewyrchiad agored a gonest o'r hyn a aeth yn dda a'r hyn nad oedd cystal o safbwynt y trigolion a darparu'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau'r Cyngor ar y rhain, er mwyn hysbysu Aelodau Etholedig a thrigolion ynghylch pam fod y Cyngor yn gwneud y penderfyniadau a wnaeth. ar y meysydd hyn, a'r ffactorau dan sylw, yn ogystal â'r risgiau o beidio â chyflawni'r rhain.
- Ei bod yn bwysig i'r Cyngor gyfathrebu â'r cyhoedd am y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'r hyn y gallai ac na allai ei wneud oherwydd y pwysau economaidd presennol a'r pwysau eraill yr oedd yn ei wynebu.
- Dylai Preswylwyr ac Aelodau Etholedig gael eu hannog ymhellach (gan y Cyngor ac Aelodau Etholedig) i roi adborth i'r broses hon, h.y. drwy arolwg Dewch i Siarad am Fywyd yn y Fro a rhwydwaith Hyrwyddwyr Cyngor Bro Morgannwg.
- Cael mwy o eglurder yn yr adroddiad ynglŷn â'i gwmpas a'i ddiben gan ei fod yn adrodd ar y meysydd a'r gwasanaethau hynny y dywedodd y Cyngor y byddai'n eu gwneud ac wedi'u gwneud.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor cyn i Adroddiad Hunanasesu Blynyddol terfynol Bro Morgannwg gael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'i gyflwyno wedi hynny i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

374 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2022/2023 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad oddi wrth y Cabinet ar 7 Medi, 2023 gan y Rheolwr Gweithredol - Gwasanaethau Gweithwyr, a'i ddiben oedd diweddau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â threfniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ar draws y cyngor. Ar gyfer cylch gwaith y Pwyllgor a'r maes ffocws, cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol at Adran C o'r prif adroddiad, ynghylch Recriwtio Mwy Diogel lle'r oedd cydymffuriad cyffredinol ar gyfer mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 ar gyfer pob penodiad yn 99% o'i gymharu â 93% o'r un cyfnod adrodd y llynedd.

Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith a'r gwelliannau helaeth a wnaed i gyflawni'r gyfradd gydymffurfio hon, gan gynnwys gwiriadau GDG, geirdaon, asesiadau risg a'r manylion cofrestru priodol a ddarparwyd, a roddwyd ar waith gan y cyngor i sicrhau bod staff addysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu penodi gyda'r holl fesurau diogelu angenrheidiol ar waith.

No.

Yn dilyn cyflwyno'r geirida a'r adroddiad, dywedodd y Cadeirydd fod y perfformiad gwell a amlinellir yn yr adroddiad yn golygu gwell diogelwch i drigolion a defnyddwyr gwasanaethau ym Mro Morgannwg.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – NODI cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad atodol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet.

375 CHWARTER 1 MONITRO REFENIW 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad oddi wrth y Cabinet ar 7 Medi Cyflwynwyd mis Medi, 2023 gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg, a'i ddiben oedd cynghori'r Pwyllgor am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 1 ar gyfer 2023/24. Fel rhan o hyn, cyflwynodd y swyddog rai sleidiau i'r Pwyllgor er mwyn tynnu sylw at y meysydd hynny sydd fwyaf perthnasol i'w gylch gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys y sefyllfa refeniw gyffredinol a ragwelir, penawdau allweddol, sefyllfa arbedion ar gyfer 2023/24, pwysau allweddol gan y Gyfarwyddiaeth (gan gynnwys gorwariant a ragwelir h.y. fel y gwelir gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Thai, hefyd unrhyw danwariant mewn Cyfarwyddiaethau eraill), a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, yn ogystal â throsglwyddiadau.

Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad a'r adroddiad atodedig, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor ac eraill:

- O ran ymholiadau'r Cynghorydd Frank ynghylch arian a dynnwyd o'r cronfeydd wrth gefn a'r gyllideb Addysg, eglurwyd bod yr arian rhagamcanol a dynnwyd o'r cronfeydd wrth gefn wedi'i fodlu am flwyddyn gyfan ac nid ar gyfer y chwarter dan sylw yn unig. Eglurodd yr Arweinydd y byddai angen i ysgolion, fel gyda gwasanaethau allweddol eraill y cyngor, wneud arbedion a cheisio cyllidebau mwy cytbwys.
- Holodd y Cynghorydd Dr Jonhson pa drafodaethau a gynhaliwyd â LIC ynghylch cyllid / toriadau, y tebygolrwydd y bydd y £15.5m o'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn cael ei wario, ynghyd â'r arbedion effeithlonrwydd a'r cyllid o ran y Celfyddydau. Mewn ymateb, amlinellwyd y bu gostyngiad mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru ac nid oedd disgwyl ar hyn o bryd y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynlluniau na thrafodaethau ar doriadau cyllid ac roedd sgwrsiau yn cael eu cynnal gyda phartneriaid ynghylch cyllid rhanbarthol, ac ati. O ran CRT, roedd hyn yn gysylltiedig â chyflawni Rhaglen Gyfalaf CRT a byddai unrhyw lithriant a gostyngiadau mewn arian a dynnwyd o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu monitro a'u proffilio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gallai effaith pellach hefyd ddod o'r adolygiad o'r Rhaglen Gwella Tai. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhannu mewn adroddiadau monitro dilynol. O ran cynilion / cyllid y Celfyddydau, byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio a'i rhannu gyda'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

- (1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2023/24 yr Awdurdod.
- (2) NODI'r trosglwyddiadau arian a gynhwyswyd fel rhan o'r adroddiad fel y nodir yn Nhabl 1.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

376 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 MEHEFIN 2023 (CAC) –

Roedd yr adroddiad, ynghyd â rhai sleidiau ychwanegol, yn rhoi uchafbwyntiau allweddol, a diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2023. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1. Rhoddodd Atodiad 2 grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y cyngor ar 6 Mawrth i 30 Mehefin 2023, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2023/24 a blynyddoedd y dyfodol.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £125.813m, sef Rhaglen gymeradwy y cyngor o £103.968m ynghyd â llithriant o £8.733m o 2022/23 ac ychwanegiadau o £13.112m. Roedd y cyngor yn cyflwyno rhaglen ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen i'r Fro, gyda chynnydd da wedi'i wneud o ran y Rhaglen Gyfalaf gyffredinol, ond oherwydd hyn byddai heriau o ran cyflawni ym mhob un o'r meysydd hyn, a allai olygu rhywfaint o lithriant.

Roedd yn bwysig nodi bod llawer o feysydd yn parhau i brofi cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig â darparu cynlluniau ac amseroedd arwain hwy, gan arwain at lithriant. Roedd tendrau'n cael eu derbyn dros y cyllidebau presennol a ddyrannwyd ac roedd swyddogion yn adrodd am y gofyniad i ailtrafod tendrau a gyflwynwyd. Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a rhagwelwyd y byddai gofyn am geisiadau llithriant mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Roedd uchafbwyntiau allweddol y Pwyllgor yn cynnwys cyllid ychwanegol mewn perthynas â Chronfa Teithio Llesol 2023/24, y Grant Gwella Diogelwch a Pharc ac Ardal Chwarae Celtic Way, Y Rhws, yn ogystal â Chanolfan Hamdden Llanilltud Fawr.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cododd y Cynghorydd Dr Johnson ymholiadau ynghylch Cyfnewidfa Doc y Barri a'r cyllid ynghylch y mesurau diogelwch (gan gynnwys ffensio) a ychwanegwyd fel rhan o hyn, wrth ymyl yr orsaf drenau.

No.

Byddai gwybodaeth yn cael ei cheisio am hyn a'i rhannu gyda'r cynghorydd a'r Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD -

- (1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2023/24 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.
- (2) NODI'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.
- (3) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (4) NODI'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2023/24 a'r blynyddoedd i ddod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

377 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL:
PERFFORMIAD CHWARTER 1 2023/24 (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad perfformiad gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, a oedd yn nodi cynnydd y cyngor yn Chwarter 1 [C1] (1 Ebrill i 30 Mehefin, 2023) tuag at gyflawni ei ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol (2023/24) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol a cheisio ystyriaeth yr Aelodau Etholedig ar ganlyniadau perfformiad Ch1 a'r camau gweithredu adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd sy'n tanberfformio a nodwyd.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 3 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd hynny o ran cyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24. Priodolwyd statws perfformid Oren i un Amcan Lles Corfforaethol (Amcan Lles 3) yn Ch1.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau cynlluniedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 95% (277 o 293), priodolwyd statws perfformiad Oren i 1% (3) a phriodolwyd statws Coch i'r 4% olaf (13). O'r 12 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 59% (7), statws Oren i 8% (1) a statws Coch i 33% (4).

Y chwarter hwn, roedd meysydd i'w gwella a amlinellwyd yn y cyflwyniad wedi'u diweddarau i adlewyrchu trosolwg o feysydd gwella penodol y cynllun gwasanaeth sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, meysydd datblygu a gweithgarwch sy'n dod i'r amlwg, a meysydd sy'n dechrau peri pryder sy'n benodol i gylich gwaith pob Pwyllgor Craffu dros bob un o'r 4 amcan lles. Roedd hyn yn adlewyrchu'r

newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan Aelodau Etholedig i fonitro perfformiad ac yn cyd-fynd â'r 13 Egwyddor yn y Cynllun Gweithredu Craffu Effeithiol. Byddai'r ymagwedd hon yn galluogi Aelodau i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth sydd ar ddod a meysydd lle dylid ystyried ymchwilio ymhellach, ynghyd â chynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol. Nodwyd hefyd, o Atodiad A, y meysydd hynny sy'n benodol i'r Pwyllgor o ran cyflawniadau a wnaed a oedd yn ymdrin â'r 4 amcan lles, yn amrywio o welliant yng nghyfraddau absenoldeb staff i gydymffurfio â recriwtio mwy diogel a phrentisiaethau, yn ogystal â chomisiynu nifer o gerbydau trydan.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Haines am Dechrau'n Deg yn Sain Tathan; byddai hyn yn cael ei ystyried a'i adrodd yn ôl iddo. Cyfeiriodd hefyd at y camau gweithredu a'r mesurau hynny, yn Atodiad C yr adroddiad, a oedd yn 'llwyd' ar hyn o bryd ac nad oeddent yn cynnwys llawer o sylwadau na manylion, pwynt a godwyd hefyd gan y Cadeirydd. Esboniwyd bod hyn yn ymwneud â chamau gweithredu / mesuriadau nad oeddent yn cael eu monitro'n chwarterol, a bod data i'w ddarparu maes o law. Awgrymwyd y dylid darparu mwy o eglurder ar y rhain wrth adrodd ar berfformiad yn y dyfodol.
- Codwyd pwynt tebyg hefyd gan y Cynghorydd Dr Johnson ar y meysydd perfformiad hynny a nodwyd fel Coch oherwydd na roddwyd unrhyw ddiweddariadau ar y rhain, y gellid eu camddehongli ac felly roedd angen eglurhad pellach hefyd ar yr adroddiad perfformiad hwn yn y dyfodol. O ran ymholiad arall y cynghorydd ynglŷn â'r targedau a'r ffigurau ynghylch ymweliadau llyfrgelloedd cyhoeddus byddai hyn yn cael ei ystyried a darperir gwybodaeth.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Wood ar y ffigurau a roddwyd ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion uwchradd, roedd hyn yn cael sylw drwy ymgyrch a arweiniwyd gan y cyngor a'i graffu gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant. Gwelwyd y mater hwn yn genedlaethol hefyd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 1 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynnyddol 2023/24 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) AR ôl i'r Pwyllgor ystyried y camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, gwnaed y sylwadau a ganlyn, i'w trosglwyddo i'r Cabinet:

- Rhoi rhagor o fanylion ac eglurder i'r camau gweithredu a'r mesurau hynny, yn Atodiad C yr adroddiad, a oedd yn dangos yn 'lwyd' ar hyn o bryd er mwyn ei gwneud yn glir bod y rhain yn cyfeirio at feysydd nad ydynt yn cael

No.

- eu monitro ar hyn o bryd, nad ydynt ar gael yn chwarterol neu wedi dim ond newydd ddechrau cael ei fonitro ac felly nid oedd llinell sylfaen ar gael.
- Rhoi mwy o fanylion ac eglurder i'r camau gweithredu, y targedau a'r mesurau hynny yn Atodiad C yr adroddiad y rhoddwyd sgôr Coch iddynt oherwydd nad oedd unrhyw ddiweddariad ar y cynnydd yn cael ei wneud ac i annog darparu diweddariadau pellach er mwyn i'r rhain gael eu cofnodi'n gywir.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er ystyriaeth y Cabinet ac i sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad fel y'u hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)) Deddf 2015 ei fod wedi cynyddu ei gyfraniad i'r eithaf at gyflawni nodau llesiant Cymru.